Cofnodion cyfarfod rithiol 14 Medi 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Cynog Prys	
Daniel Williams	Emyr Gareth	
Llŷr Evans	Dafydd Huws	
Casi Roberts	Eifion Williams	
Iestyn Harris		
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cadeirydd Iwan Huws. Dywedodd ei fod yn gyfarfod hanesyddol gan mai cyfarfod olaf y Swyddog Ariannol yw, dywedodd bydd cyfle yn y diweddi ddatgan diolch y Cyngor. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Nerys John a Lliwen Griffith-Williams	
1.1	Ardal Ni 2035 - dywedodd y Cadeirydd bod cynnwys y llythyr yn haeddu ystyriaeth fanwl a bod angen i'r cynghorwyr gael amser i feddwl am eu sylwadau. Felly er mwyn helpu'r drafodaeth ymlaen ar gyfer mis Hydref a thrafodaeth a'r Swyddog Dafydd Einion yna i ddilyn penderfynwyd paratoi "spreadsheet" er mwyn i bawb cael rhoi eu sylwadau ar y 5 eitem. Roedd Y Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Casi Williams am drefnu i wneud hyn.	
1.2	Rheolau drafft etholiadau lleol- gwybodaeth wedi ei dderbyn ond dim sylwadau.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn gallu bod yn bresennol oherwydd bod ganddo gyfarfod arall wedi ei drefnu.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Iwan Hughes – eitem 6.1 a 6.2	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad gwariant mis Gorffennaf 2021 i'r Cyngor. Derbyniwyd yr adroddiad.	**Swyddog Ariannol**
4.2	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad gwariant mis Awst 2021 I'r Cyngor. Derbyniwyd yr adroddiad.	**Swyddog Ariannol**
4.3	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod £75178.43 yn y banc oherwydd bod taliad praesept wedi ei dderbyn. Roedd wedi derbyn ymholiad gan yr archwilwyr pan bod cyn-gymaint o arian yn y banc. Roedd wedi gallu egluro bod gwariant wedi ei glustnodi ar gyfer y Cae Chwarae a hefyd y neuadd, roedd cwblhau'r gwaith hwn wedi cael eu heffeithio gan y sefyllfa pandemig. Roedd yr eglurhad yn ddigonol. Dywedodd y Swyddog Ariannol yn sgil hyn bod angen symud ymlaen i wario ar yr eitemau sydd wedi eu clustnodi fel prosiectau.	
4.4	Eglurodd y Swyddog Ariannol bod angen symiau rhesymol yn y banc er mwyn cael darpariaeth am gyflogau a biliau annisgwyliadwy. Roedd cofid wedi cael effaith am y gwario yn y ddwy flynedd. Mae angen arian wrth gefn, arian ar gyfer	

	prosiectau o fewn y gymuned. Rhaid cofio i sicrhau cyfiawnhau'r praesept.	
4.5	Mae sieciau i'r cyn Gynghorwyr Mei Gwilym ac Elliw Williams heb eu cyflwyno yn y banc. Mae'r sieciau bellach yn 6 mis oed, gofynnir i'r Cyngor i gadarnhau eu talu'n ôl i'r banc. Roedd y Cyngor yn barod i gadarnhau hyn. Y Clerc i anfon at y Ddau Cyn Gynghorwyr i ddatgan na fyddai modd cyflwyno'r sieciau i'r banc bellach.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Gorffennaf 2021 fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Yn codi o'r cofnodion: Gwaith priffyrdd - dywedodd y Clerc bod y Cynghorydd Gareth Griffiths wedi dweud y byddai yn siarad â'r adran er mwyn cael y diweddaraf. Yn anffodus nid oedd y Cynghorydd yn bresennol felly nid oedd diweddariad i'w gael ar y materion. Credir bod gwaith wedi ei gwblhau gan Dwr Cymru ar y dŵr oedd yn dod i Ffordd Gaernarfon. Nid oes dim wedi digwydd ar y ffordd lawr I Cei Llechi na gyferbyn a'r Feddygfa. Dim ymateb wedi bod ynglŷn â Llwybr Afon Heulyn gan Gyngor Gwynedd. Dywedodd y Cynghorydd Cynog Prys bod gweithiwr wedi ei weld yn gweithio ar y wal yn ddiweddar. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd er mwyn cael diweddariad ar y sefyllfa; hefyd i dderbyn gwybodaeth os oedd swyddog arall wedi ei benodi yn lle Gerallt Jones. Mabwysiadu ciosg Lan y Môr - Y Clerc i wneud ymholiadau a BT i symud ymlaen a mabwysiadu'r ciosg. Toiledau - Nid oedd gwaith ar yr asesiad risg na "medoth Statement" wedi cael ei gwblhau hyd yma. Roedd y Cynghorydd Eifion Williams yn barod i wneud hyn yn yr wythnos oherwydd ei fod ar wyliau.	**CLERC** **CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO - Cadeiriwyd eitemau cynllunio gan y Cynghorydd Daniel Williams.**	
6.1	Rhif Cais : C21/0579/20/AC Lleoliad: Caffi Lloft Hwyliau, Sail Loft Restaurant, Menai Bakery Glan Y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RQ Bwriad : Diwygio amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio rhif C20/0238/20/LL er mwyn ymestyn yr estyniad yng nghefn yr eiddo ynghyd a gosod ffenestr ychwanegol i'r edrychiad blaen. - cofnodir y cais oherwydd roedd wedi ei dderbyn yn mis Awst, fe roddwyd sylw drwy e-bost gan y Cynghorwyr I ddatgan **DIM GWRTHWYNEBIAD**.	
6.2	Rhif Cais: C21/0716/20/DT Location: 18 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PA Bwriad: Codi estyniad i gefn llawr cyntaf yr eiddo **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.3	Rhif Cais : C21/0709/20/LL Lleoliad : Fferm Bryn, Llanfair Is Gaer, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1TU Bwriad : Cais ar gyfer	

	codi adeilad amaethyddol i orchuddio ardal llawio gwartheg presennol Wedi ei ganiatau yn barod	
6.4	Rhif Cais : C21/0755/20/LL Lleoliad: Canolfan Dinas, Beach Road,, Y Felinheli, LL56 4RX Bwriad: Cais ar gyfer dymchwel adeilad byncws presennol a chodi adeilad byncws yn ei le – DIM GWRTHWYNEBIAD – anfon sylwadau bod angen edrych ar y fynedfa er mwyn sicrhau gweledigaeth i'r cerbydau sydd yn mynychu'r eiddo.	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Cafwyd adroddiad bod plentyn wedi syrthio i lawr drwy dwll yn y wal lawr i Hen Lei Llechi. Roedd y bwlch yn y wal oherwydd bod gwaith wedi ei wneud fel rhan o gais gynllunio a gafwyd ei wrthod. Y Clerc i anfon at Wasanaethau Cynllunio Gwynedd er mwyn iddynt roi sylw penodol i'r mater yma. Roedd y sefyllfa yn pery pryder i'r cyngor.	**CLERC**
7.2	Cyfyngiad Cyflymder A Di Cyfyngu Arfaethedig 2021 Ffyrdd Siriol Amrywiol Ar Y Cyd â A487 Ffordd Osgoi Caernarfon/Bontnewydd – Gwybodaeth yn unig.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Cafwyd eglurhad gan y Clerc pan bod toriad i'r llwybrau wedi bod yn hwyr. Roedd y Contractwr wedi datgan bod y tywydd sych wedi atal tyfiant ym mis Gorffennaf ac yna gyda'r glaw ym mis Awst roedd y tyfiant wedi dod. Yn anffodus roedd y Contractwr wedi cael profedigaeth hefyd ac oherwydd hyn roedd y toriad yn hwyr. Nid oedd toriad wedi bod i'r llwybrau lle mae cyfrifoldeb yn syrthio ar yr Adran Gefnffyrdd. Cafwyd gwybodaeth wedi'r cyfarfod gan y Cynghorydd Eifion Williams bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ym mis Hydref.	
8.2	Dywedodd aelodau o'r Is-bwyllgor Llwybrau eu bod wedi gwneud archwiliad o'r llwybrau ond heb gael amser i nodi'r canlyniadau.	
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Dim i'w adrodd ar y fynwent - dim ymateb wedi dod i law ynglŷn â chael pris i weithio ar safle Moriah.	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Rhoddwyd eglurhad i'r Cyngor ar sefyllfa bresennol prosiect Cae Chwarae. Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd byddai'r Cynghorydd Emyr Gareth yn cyfathrebu gyda Sunshine Paygrounds a hefyd gyda OBR. Trafodwyd bod angen oddeutu £10K ar gyfer cwblhau'r gwaith. Roedd y Cyngor yn gytûn i glustnodi'r arian yma ac i'r Cynghorydd Emyr Gareth symud ymlaen i gwblhau'r prosiect.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Rhoddwyd adroddiad ar gyfarfod yr is-bwyllgor gan y Cynghorydd Dan Williams: Roedd yr is-bwyllgor wedi cyfarfod ac wedi trafod a phenderfynu'r canlynol: Roedd cais wedi ei dderbyn gan Clwb badminton ar gyfer ail gychwyn wedi'r cyfnod clo. Roedd hyn yn	**DW**

	golygu byddai dau ddefnyddiwr yn defnyddio'r neuadd ar ddydd Llun. Ar hyn o bryd mae'r Guides a'r brownies yno hyd at 7:30 yn yr hwyr. Bydda'r clwb badminton yn cychwyn am 8. Penderfynwyd caniatáu hyn. Mae asesiad risg wedi ei dderbyn gan y badminton. Mae Medi Williams yn defnyddio'r neuadd ar ddydd Mawrth a bydd yn gwneud trefniadau i ddefnyddio'r neuadd yn y prynhawn pan fydd angen i'r Cyngor gyfarfod ar yr ail ddydd Mawrth o fewn y mis. Bydd hyn yn digwydd o fis Hydref ymlaen. Mae Medi yn defnyddio'r neuadd ar Ddydd Mercher ar gyfer ymarfer ar gyfer cael cymhwyster dawnsio. Os bydd defnydd arall angen y neuadd yna bydd hynny yn cael blaenoriaeth. Mae dau ddefnyddiwr yn y neuadd ar ddydd Iau - y bowls yn y pnawn a menter dawnsio gymunedol gan Medi yn yr hwyr. Bydd y fenter yma yn cychwyn nos Iau. Mae dydd Gwener yn rhydd. Penderfynwyd hefyd bod partïon plant yn mynd i gael ail ddechrau ar y penwythnosau yn unig. Un yn unig ar y Sadwrn ac un ar y Sul. Ar hyn o bryd mae'r lanhawraig yn glanhau'r neuadd pob dydd Llun, Mercher a Sadwrn.	
11.2	Mae rhaid o'r goleuadau'r neuadd angen eu newid. Mae cyfarfod wedi bod yn y neuadd gyda chontractwr er mwyn gweld beth sydd angen ei wneud. Hefyd mae goleuadau oddi allan yn creu ychydig o anhawster i drigolion cyfagos, gobeithir rhoi teclyn PIR ar y goleuadau a byddant yn gweithio dim ond pan fydd eu hangen. Mae'r contractwr yn gweithio i gael pris i'r Cyngor yn y dyfodol agos.	
11.3	Mae cyfarfod gyda Peter Wray wedi ei drefnu ar gyfer bore Dydd Llun am 09:45 er mwyn cael cyngor ar y llawr a'r gofod oddi dan. Mae'r ymweliad a'r adroddiad a'r cyngor yn costio £250. Penderfynwyd bod y pris yn rhesymol a chytunwyd i'r ymweliad fynd yn ei flaen.	
11.4	I ddyddiad nid oes pris arall wedi ei dderbyn ar gyfer gwneud gwaith i lawr y neuadd. Mae contractwr arall wedi bod yn onest ac wedi datgan na fyddai yn gallu gwneud y gwaith oherwydd bod gormod o waith ar eu dwylo. Oherwydd bod pob ymdrech wedi bod i ddod o hyd i gontractwyr ac i gael prisiau eraill penderfynwyd gofyn i'r Cyngor am ganiatâd i dderbyn pris yr unig gontractwr sydd wedi cyflwyno pris. Roedd y Cyngor yn gytûn i hyn a phenderfynwyd ail edrych	

	ar y rheolau sefydlog ym mis mai yn enwedig ynglŷn â thendro.	
11.5	Roedd y Cloc wedi derbyn gwasanaeth gan Smiths of Derby yn ddiweddar. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams fyddai rhaid trefnu cau'r ffordd ar gyfer gwasanaeth coffa'r flwyddyn yma. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd ynglŷn â hyn.	
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan. Nid yw'r system bwcio yn weithredol ar hyn o bryd. Bydd bwcio yn neuadd yn cael ei wneud drwy'r Clerc ar hyn o bryd.	**CLERC/CR**
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Gobeithir ail ddechrau ar y gwaith hwn.	
14.0	Dywedodd y Cadeirydd bod diwedd cyfarfod olaf Mr Wynne Barton wedi cyrraedd. Dywedodd ei fod wedi gobeithio gallu diolch iddo a ffarwelio gyda fo wyneb yn wyneb ond oherwydd y sefyllfa nid oedd hyn y bosib. Dywedodd bod Wynne wedi rhoi 16 o flynyddoedd fel swyddog i'r Cyngor, gyda 9 mlynedd olaf fel Swyddog Ariannol. Fe ofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr Iestyn Harris a Daniel Williams I roi gair. Diolchodd y Cynghorydd Iestyn Harris iddo am ei waith trwyadl dros ei gyfnod fel Clerc a Swyddog Ariannol gan gofio am ei waith i roi trefn ar waith y cyfrifon pan ddaeth i weithio i'r Cyngor. Nid oedd y Cyfrifon wedi eu cyflwyno am 5 mlynedd. Diolchodd iddo a gobeithio'r gorau iddo yn y dyfodol. Ategodd y Cynghorydd Dan Williams geiriau Iwan ac Iestyn wrth ddiolch I Wynne am ei waith. Diolchodd I Wynne am fod yn barod i roi arweiniad eglur a doeth iddo pob tro. Gobeithir cynnal digwyddiad Nadoligaidd eleni ac efallai bydd modd i Wynne ddod yno er mwy i'r Cyngor allu ffarwelio ag ef yn wyneb yn wyneb. Diolchodd Wynne iddynt am eu geiriau caredig gan ddatgan mai Dan ac Iestyn oedd yr unig ddau gynghorydd oedd yn parhau o'r Cyngor pan ddechreuodd ar ei with fel clerc. Cyfeiriodd at y gwaith o ddod a'r cyfrifon i drefn a bod y cyfrifon wedyn wedi eu cynnal ar amser ac yn drefnus ers hynny. Roedd yn trosglwyddo'r awenau i Heather fel rhai trefnus. Diolchodd i bawb ac yna diolchodd pawb iddo am ei waith a gobeithio'r gorau iddo.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:**